OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 360 (Cy.35)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

## Rheoliadau Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *23 Chwefror 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *25 Chwefror 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Mawrth 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac fe ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Reoliad y Cyngor (EC) 1198/2006 a Rheoliad y Comisiwn (EC) 498/2007 fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(**3**), mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

(**1**) O.S. 2005/2766 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/3329). Yn rhinwedd adrannau 59(1) ac 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).